Archarwyr Byd Cyw
Bybls
gan Sioned Wyn Roberts
Cyw's World Superheroes - Bubbles

1. Roedd Llew yn golchi dillad pan ddigwyddodd rhywbeth od iawn. Daeth bybls melyn, coch a glas allan o'r peiriant a llenwi'r ystafell i gyd.

2. O-o! Yn anffodus, roedd Llew wedi golchi clogyn archarwr Cyw. Y clogyn melyn sy'n rhoi'r siwpyr-bŵer iddi neidio'n uchel.

3. 'O na!' meddai Jangl, Rwyt ti wedi golchi fy nghlogyn coch i. Yr un sy'n rhoi'r siwpyr-bŵer i fi fynd yn gyflym fel y gwynt.'

4. 'Ac un fi,' meddai Triog. 'Fy nghlogyn glas sy'n rhoi'r pŵer archarwr i fi ddod â phethau pell yn agos.'

5. Roedd Llew druan wedi gwneud camgymeriad mawr iawn. Nawr roedd rhaid iddo edrych yn ofalus ar bob clogyn.
Ydyn nhw wedi colli lliw? Na.
Ydyn nhw wedi mynd yn llai? Na.

6. 'Ffiw!' meddyliodd Llew wrth wisgo ei hoff grys -T glân.
Ond, yn sydyn, dechreuodd y crys -T gosi i gyd ac yna fflachiodd mewn lliwiau coch, melyn a glas. A'r munud nesa …

7. …roedd Llew yn neidio i fyny, yn taro'r nenfwd ac yn ping-pongio fel pêl ping-pong o amgylch y stafell. Roedd o'n bownsio i fyny ac i lawr, yn gynt ac yn gynt.

8. Roedd Llew wrth ei fodd! Dechreuodd ysgwyd ei gynffon, ac ar unwaith daeth pethau pell yn agos. Roedd Llew fel magned - slipars Plwmp ar ei ben, mwclis Jangl ar ei gynffon, a chrempog ar ei drwyn!

9. Am archarwr! Roedd Llew yn gallu neidio'n uchel, symud yn gyflym, a denu pethau pell yn agos ato. Tri siwpyr-bŵer ar yr un pryd!

10. 'Ti'n archarwr anhygoel!' meddai pawb. 'Pa siwpyr-bŵer wyt ti eisiau?'
'Hmmm,' meddyliodd Llew am hir, ac yna cafodd syniad.

11. Mae Llew eisiau gwneud bybls! Dyna beth yw siwpyr-bŵer arbennig iawn.

1. Llew was washing clothes when something very strange happened. Yellow, red and blue bubbles came out of the machine and filled the whole room.

2. Uh-oh! Unfortunately, Llew had washed Cyw's superhero cape. The yellow cape that gives her the superpower to jump high.

3. 'Oh no!' said Jangl. 'You've washed my red cape. The one that gives me the superpower to go very fast.'

4. 'And mine too', said Triog. 'My blue cape that gives me the superhero power to bring things that are far away close.'

5. Poor Llew had made a very big mistake. Now he had to look carefully at each cape.
Have they lost their colour? No.
Have they shrunk? No.

6. 'Phew!' thought Llew as he put on his favourite clean T-shirt.
But suddenly, the T-shirt started to itch all over and then flashed in red, yellow and blue. And the next minute…

7. …Llew was jumping up, hitting the ceiling and ping-ponging like a ping-pong ball around the room. He was bouncing up and down, faster and faster.

8. Llew was thrilled! He started wagging his tail, and suddenly things that were far away came close. Llew was like a magnet – Plwmp's slippers on his head, Jangl's necklace on his tail, and a pancake on his nose!

9. What a superhero! Llew could jump high, move fast, and pull things that were far away close to him. Three superpowers at the same time!

10. 'You're an amazing superhero!' said everyone.
'Which superpower do you want?'
'Hmmm,' thought Llew for a long time, and then he had an idea.

11. Llew wants to make bubbles! Now that's a very special superpower.